# PWYLLGOR SAFONAU, 18.04.12

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans a Mr Gwyn Williams.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Sylwedydd:-** Y Cynghorydd Margaret Griffith.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa (Aelodau Annibynnol).

Gan fod yna 3 aelod annibynnol a 4 aelod etholedig yn bresennol yn y cyfarfod, cytunodd y Cynghorydd Margaret Griffith i fod yno fel sylwedydd, er mwyn sicrhau cworwm, gan fod Erthygl 9 o Gyfansoddiad y Cyngor yn datgan y dylai o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau fod yn aelodau annibynnol. Gwahoddwyd yr aelod i gyfrannu i'r drafodaeth, ond eglurwyd na allai fod yn rhan o unrhyw benderfyniad ffurfiol.

## 1. PROFEDIGAETH

Cydymdeimlwyd â Dilys Phillips, Swyddog Monitro, ar farwolaeth ddiweddar ei thad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2012 fel rhai cywir.

## 4. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach fod cŵyn arall i law'r bore hwnnw yn erbyn aelod o Gyngor Gwynedd.

Gan gyfeirio at yr achosion heb benderfyniad, holwyd a oedd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion ynghynt erbyn hyn. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y gallai rhai o'r achosion hyn fod wedi'u dal yn ôl oherwydd bod yr Ombwdsmon yn dueddol o beidio cyhoeddi adroddiadau yn ystod y 3-4 mis yn arwain i fyny at etholiad, hyd yn oed os oedd ei ymchwiliadau i'r achosion hynny wedi'u cwblhau.

Nododd aelod fod yr Ombwdsmon wedi datgan yn y Gynhadledd Safonau yn Llandrindod ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**5. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2012 ac yn gofyn i'r pwyllgor ystyried eitem 33 yn y cofnodion gan ystyried oes yna unrhyw gwestiynau yr hoffent eu rhoi i'r Ombwdsmon pan fydd yn cyfarfod â'r Fforwm yn ei gyfarfod nesaf.

Diolchodd y Swyddog Priodoldeb i'r Is-gadeirydd am gynrychioli Pwyllgor Safonau Gwynedd yn y fforwm ac adrodd yn ôl.

Nododd yr Is-gadeirydd:-

- Ar bwynt o gywirdeb, fod Geraint Roberts yn cynrychioli Dinbych yn y fforwm, ac nid Gwynedd fel y nodwyd yn eitem 31 o'r cofnodion.
- Er bod eitem 36 yn nodi iddo gynnig bod Cynhadledd Cymru Gyfan 2013 yn cael ei chynnal naill ai yng Nghonwy neu yn Llandudno, yr hyn a gynigiodd oedd bod y gynhadledd yn cael ei chynnal yn Llandrindod.
- Wrth drafod y Cylch Gorchwyl (eitem 32), dywedwyd y byddai Cyngor Conwy yn talu am ystafell a chofnodwr ar gyfer cyfarfodydd y fforwm, ond nid oedd hynny wedi'i gynnwys yn y cofnodion.
- Iddo holi hefyd pwy fyddai'n talu am gostau'r gynhadledd, ond nid oedd sôn am hynny yn y cofnodion chwaith.

Mewn ymateb i'r pwynt diwethaf, nododd y Swyddog Monitro, yn dilyn cais y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion am adroddiad yn ôl ynglŷn â'r costau, iddi drafod y mater gyda'r swyddogion monitro eraill yng Nghymru a bod yna gytundeb cyffredinol bod modd symud ymlaen i gynnal y Gynhadledd Safonau yng Ngogledd Cymru yng Ngwanwyn 2013. Eglurodd mai'r trefniadau ariannol arferol ar gyfer cynhadledd o'r fath oedd bod swm enwol, sef £50 - £75 y pen, yn cael ei godi ar bawb sy'n mynychu a bod y swm hwnnw'n cael ei dalu gan y cyngor sy'n anfon yr aelod i'r gynhadledd. 'Roedd hynny, fel rheol, yn ddigon i ddiwallu'r costau a phetai yna unrhyw gostau ychwanegol, neu elw, byddai'n disgwyl iddo gael ei rannu ar draws y chwe chyngor sy'n trefnu'r gynhadledd.

Mewn ymateb i sylw bod yna gostau mawr ynghlwm â'r gynhadledd ddiwethaf, nododd y Swyddog Monitro na ddylai'r costau fod wedi bod yn draul ar y Cyngor ac y gellid holi Cyngor Powys ymhellach ynglŷn â hyn, gan mai hwy fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Pwysleisiodd aelod fod y gost o £50 - £75 y pen yn rhesymol iawn ac yn cynnig gwerth da am arian.

Nododd y Cadeirydd y cynhelid cyfarfod nesaf y fforwm y dydd Llun canlynol, sef 23 Ebrill, ac y byddai'r Is-gadeirydd a'r Swyddog Priodoldeb yn bresennol ar ran y Pwyllgor Safonau hwn. Gwahoddwyd yr Ombwdsmon i'r cyfarfod a darparwyd rhai cwestiynau ymlaen llaw ar ei gyfer. Nododd hefyd y byddai yna gyflwyniad gan Swyddog Datblygu Unllais Cymru, sef y corff sy'n cydlynu cynghorau tref a chymuned.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Swyddog Monitro ei bod yn cymryd y byddai Unllais Cymru yn trafod yr hyfforddiant y bwriedir ei ddarparu ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned. Eglurodd, yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn ynglŷn

â'r trefniadau ar gyfer hyfforddi cynghorwyr ar y Côd Ymddygiad yn dilyn etholiadau 2012, y cyflawnwyd gwaith ar draws Cymru, mewn perthynas â'r swyddogion monitro a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i sefydlu deunydd hyfforddi ar gyfer cynghorwyr sir. Cynhaliwyd trafodaeth gyda Swyddog Datblygu Unllais Cymru hefyd er mwyn gwneud y deunydd hyfforddi yma'n berthnasol ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned. Byddai swyddogion datblygu a swyddogion hyfforddi rhanbarthol Unllais Cymru yn sefydlu'r sesiynau hyfforddi, gan ddefnyddio'r deunydd hyfforddi a ddarparwyd ar gyfer cynghorwyr sir, a byddai'r swyddogion monitro ymhob sir yn cynnal un neu ddwy sesiwn ychwanegol ar gyfer y cynghorau hynny nad ydynt yn aelodau o Unllais Cymru, neu'n sy'n methu dod i'r sesiynau a drefnir gan y corff hwnnw. Yr un fyddai cynnwys hyfforddiant Unllais Cymru a'r swyddogion monitro ac 'roedd y cyfan ohono yn seiliedig ar ddeunydd a ddatblygwyd ar y cyd a gyda mewnbwn sylweddol o'r deunydd a ddangoswyd i'r pwyllgor hwn tua blwyddyn yn ôl ac a ddefnyddiwyd yma yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i sylw gan aelodau bod Unllais Cymru yn codi tâl am gyrsiau ar gynghorau cymuned a thref sy'n aelodau ohono, nododd y Swyddog Monitro y byddai'n rhaid trafod a dod i drefniant gyda'r corff, neu fel arall, byddai pawb yn mynd i sesiynau hyfforddiant y swyddogion monitro, oedd yn cael eu darparu'n rhad ac am ddim.

Gofynnodd y Cadeirydd pa faterion y dymunai'r aelodau i'w cynrychiolwyr godi yn y fforwm.

Nodwyd bod Unllais Cymru wedi gofyn i aelodau o Feirionnydd fynd i sesiynau hyfforddiant ar Ynys Môn ac awgrymwyd y byddai'n well petai yna swyddog o'r corff yn dod at y cynghorau, naill ai'n unigol, neu fel grŵp o fewn un ardal, gan y byddai hynny'n annog mwy o gynghorwyr i gymryd rhan.

Awgrymwyd hefyd y byddai llesol i'r corff wneud mwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y swyddogion monitro wedi trafod y cwestiwn o hyfforddi clercod ac y cafwyd cyflwyniad gan gydlynydd y gymdeithas ar gyfer clercod cynghorau tref a chymuned. Eglurodd fod y gymdeithas honno yn y broses o ddarparu deunyddiau hyfforddi a threfnu cyrsiau a bod y swyddogion monitro wedi cytuno i gyfrannu at y gwaith hwnnw. Ychwanegodd na chredai fod yna fodd o orfodi clercod i dderbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad, ond 'roedd ar gael ar eu cyfer, pe dymunent fanteisio ar y cyfle hwnnw.

Nododd aelod ei fod o'r farn y dylai'r hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad fod yn orfodol ar gyfer clercod cynghorau cymuned a thref fel rhan o'u swydd ddisgrifiad.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.**
**(b) Codi'r materion a ganlyn yng nghyfarfod y fforwm ar 23 Ebrill:-**
- **Awgrymu y dylai Unllais Cymru anfon swyddog hyfforddi at y cynghorau'n unigol, neu fel grŵp o fewn un ardal, gan y byddai hynny'n annog mwy o gynghorwyr i gymryd rhan.**
- **Awgrymu y byddai'n llesol i'r corff wneud mwy trwy gyfrwng y Gymraeg.**

## 6. INDEMNIAD I AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad llafar y Swyddog Monitro ynglŷn â'r cwestiwn o dalu costau cynghorwyr sy'n ymddangos gerbron Pwyllgor Safonau a'r rhai sy'n mynd ymlaen oddi yno i Banel Annibynnol Dyfarnu Cymru.

Nododd y Swyddog Monitro fod y mater hwn wedi'i godi'n wreiddiol gan yr Ombwdsmon a bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi parhau â'r drafodaeth gydag arweinyddion y cynghorau. Eglurodd, oherwydd bod nifer o gynghorau yn rhoi indemniad i'w cynghorwyr, a hynny wedi'i gefnogi gan bolisi yswiriant, bod y cynghorwyr hynny mewn sefyllfa i gael cymorth cyfreithiol gan gwmnïau cyfreithiol mawr a bargyfreithwyr. Effaith hynny, yn ôl pob tebyg, oedd bod achosion yn mynd yn hir a chymhleth, ac yn hytrach na chael trefn tribiwnlys, fel a fwriadwyd, sy'n hawdd ac yn syml i bobl ei deall, 'roedd yr holl broses yn ymdebygu i achos llys, gyda dadleuon rhwng cyfreithwyr y ddwy ochr. Eglurodd ymhellach mai pwrpas y drafodaeth oedd ceisio gweld oedd modd gwneud rhywbeth i atal hynny, ac awgrym yr Ombwdsmon, oedd wedi'i dderbyn gan arweinyddion y cynghorau yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, oedd y dylai pob cyngor ystyried gosod trothwy ar y swm y byddent yn fodlon ei dalu fel costau cyfreithiol i unrhyw gynghorydd. 'Roeddent wedi cynnig y swm o £20,000. Ymhellach na hynny, nid oedd y drafodaeth wedi symud i argymhellion pendant ar gyfer awdurdodau, yn rhannol oherwydd bod gan nifer o awdurdodau yswiriant. 'Roedd hynny'n cymhlethu'r sefyllfa'n ddi-ben-draw, gan mai'r cwmni yswiriant, mewn gwirionedd, sy'n talu costau'r amddiffyn, ac nid oedd y cwmnïau hynny yn fodlon derbyn unrhyw gyfyngiad ar yr hyn maent yn ei wneud. Esboniodd ymhellach fod y sefyllfa'n dechrau dod i ben bellach oherwydd bod y drefn safonau yn Lloegr wedi newid. Nid oedd yno gôd ymddygiad bellach a mater i bob cyngor oedd gweithredu yn ôl eu dymuniad. Gan hynny, 'roedd y cwmnïau yswiriant wedi darganfod nad oedd marchnad ar eu cyfer gan nad oedd yna achosion yn mynd i gael eu tynnu ac nid oeddent yn mynd i ddarparu yswiriant ar gyfer yr ychydig gynghorau yng Nghymru sydd ei angen yn unig. Gan hynny, byddai'n haws i'r cynghorau eu hunain benderfynu dros y misoedd nesaf a ydynt am roi indemniad ac a ydynt am roi trothwy ar yr indemniad hwnnw.

Eglurodd y Swyddog Monitro ymhellach ei bod yn gynamserol i ofyn i'r pwyllgor hwn wneud argymhelliad ar y mater i'r Cyngor newydd gan fod angen gweld yn gyntaf a yw'r drafodaeth am fynd ymhellach, a yw'r cwmnïau yswiriant yn tynnu allan ac a fydd yna gytundeb ar draws Cymru ynglŷn â'r hyn mae pob cyngor yn ei wneud. Bwriadai gyflwyno adroddiad ar y mater i'r Pwyllgor Safonau nesaf gydag argymhelliad i'r Cyngor llawn ar y ffordd ymlaen. Yn y cyfamser, byddai'n croesawu unrhyw sylwadau i'w pasio ymlaen i'r drafodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, aros i'r sefyllfa ddatblygu ymhellach ac ymddiried yn y Cyngor newydd i benderfynu ar y ffordd ymlaen.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, nododd y Cadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor Safonau ar ôl cyfnod gwasanaeth o 11 mlynedd a diolchodd i'r aelodau a'r swyddogion am eu cydweithrediad parod ar hyd y blynyddoedd.

Nododd y Swyddog Monitro mai hwn hefyd oedd cyfarfod olaf y Cynghorydd Margaret Griffith, oedd yn sefyll i lawr yn yr etholiad, a Mr Malcolm Jones.

Diolchodd yr aelodau i'r Cadeirydd ac i'r Cynghorydd Margaret Griffith a Mr Malcolm Jones am eu cyfraniad gwerthfawr i waith y pwyllgor dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda i'r tri ohonynt.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro ddiolchiadau'r swyddogion am gefnogaeth y Pwyllgor Safonau gan fynegi ei gobaith y ceid yr un gefnogaeth gan y pwyllgor nesaf.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu harweiniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30am a daeth i ben am 12.10pm.